



Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

CYNLLUN RHEOLI RISG CYMUNEDOL 2040

FERSIWN 2



www.tancgc.gov.uk

This document is also available in English



Fersiynau Amgen

Cymraeg

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael mewn fformatau hygyrch. Os hoffech gael yr wybodaeth hon mewn fformat neu iaith amgen, gan gynnwys ar ffurf sain, cysylltwch â ni ar: 0370 6060699 neu drwy e-bost: mail@mawwfire.gov.uk.

Saesneg

This document is also available in accessible formats. If you would like this information in an alternative language or format, including audio, please contact us on 0370 6060699 or email: mail@mawwfire.gov.uk.

Arabeg

هذه الوثيقة متوفرة أيضا بطرق تسهل قراءتها، لو تريد هذه المعلومات بلغة أخرى أو بشكل آخر، إضافة بطريقة مسموعة، المرجوا mail@mawwfire.gov.uk : التواصل معنا عبر 03706060699 أو عبر البريد الإلكتروني

Tsieineeg

该文档也备有无障碍格式版。如果您需要信息通过不同语言或格式提供，包括语音版本，请拨打 0370 60 60 699 或电邮到 mail@mawwfire.gov.uk 跟我们联系。

Nepaleg

यो दस्तावेज अन्य सजिला फर्मेटहरूमा पनि उपलब्ध छ। यदि तपाईं यो जानकारी अडियोसमेत अन्य वैकल्पिक भाषा वा फर्मेटमा चाहनुहुन्छ भने कृपया हामीलाई फोन नं.: 0370 6060699 वा ईमेल: mail@mawwfire.gov.uk मा सम्पर्क गर्नुहोस्।

Pwyleg

Istnieje również możliwość uzyskania niniejszego dokumentu w dostępnych formatach. Jeśli chce Pan/Pani otrzymać niniejsze informacje w innym języku lub formacie, w tym w wersji dźwiękowej, prosimy o skontaktowanie się z nami telefonicznie: 0370 6060699 lub drogą mailową: mail@mawwfire.gov.uk.

Punjabi

"ਇਹ ਦਸਤਾਵੇਜ਼ ਪਹੁੰਚਯੋਗ ਫਾਰਮੈਟਾਂ ਵਿਚ ਵੀ ਉਪਲਬਧ ਹੈ. ਜੇ ਤੁਸੀਂ ਇਹ ਜਾਣਕਾਰੀ ਕਿਸੇ ਵਿਕਲਪਿਕ ਭਾਸ਼ਾ ਜਾਂ ਫਾਰਮੈਟ ਵਿਚ ਚਾਹੁੰਦੇ ਹੋ, ਜਿਸ ਵਿਚ ਆਡੀਓ ਵੀ ਸ਼ਾਮਲ ਹੈ, ਕਿਰਪਾ ਕਰਕੇ ਸਾਡੇ ਨਾਲ ਸੰਪਰਕ ਕਰੋ: 0370 6060699 ਜਾਂ ਈਮੇਲ: mail@mawwfire.gov.uk."

Wrdw

یہ دستاویز قابل رسائی شکلوں میں بھی دستیاب ہے۔ اگر آپ یہ معلومات آڈیو سمیت کسی متبادل زبان یا شکل میں: mail@mawwfire.gov.uk چاہتے ہیں تو، براہ کرم ہم سے رابطہ کریں: 0370 6060699 یا ای میل:



Cynnwys

Cyflwyniad	4
Paratoi ein Cynllun Rheoli Risg Cymunedol	6
Themâu	7
Gweledigaeth	8
Ymddygiadau	9
Galluogwyr	10
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015	12
Datganiad Dyletswydd Economaidd Gymdeithasol	17
Y Gymraeg a'r Gwasanaeth	18
Amcanion Gwella a Llesiant	19
Monitro'r Cynllun hwn	30
Darganfod mwy	31





Cyflwyniad

Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, y Fframwaith Tân ac Achub Cenedlaethol a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'n ofynnol i bob Awdurdod Tân yng Nghymru gyflawni ac adrodd yn erbyn Amcanion Gwella yn flynyddol. Rydym yn croesawu ein dyletswyddau statudol yn llawn a byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'n partneriaid a'n cymunedau lleol i wneud canolbarth a gorllewin Cymru mor ddiogel â phosibl.

Mae'r Gwasanaeth yn cwmpasu bron i ddwy ran o dair o Gymru, gan gwmpasu ardal wledig yn bennaf o 4,500 milltir sgwâr (11,700 km²), sy'n cynnwys 58 gorsaf, ac yn cyflogi tua 1,300 o staff. Dyma'r drydydd gwasanaeth fwyaf yn y Deyrnas Unedig, y tu ôl i Wasanaethau Tân ac Achub yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae Canolbarth a Gorllewin Cymru yn gartref i boblogaeth amrywiol ac amlddiwylliannol o tua 931,698 o bobl ar draws 432,791 o aelwydydd, sy'n cwmpasu chwe ardal awdurdod lleol: Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro, Powys, a Dinas a Sir Abertawe.

Mewn blynyddoedd blaenorol, mae'r Gwasanaeth wedi cynhyrchu dau Gynllun, sef, Cynllun Strategol pum mlynedd yn amlinellu Ymrwymïadau hirdymor y Gwasanaeth a Chynllun Gwella Busnes Blynyddol yn amlinellu Amcanion Gwella a Lles y Gwasanaeth. Mae'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu wrth wraidd popeth a wnawn ac yn cydnabod yr angen i gynllunio ar gyfer y tymor hwy y gwnaethom benderfynu adolygu ein trefniadau cynllunio, a'i ganlyniad oedd cyflwyno Cynllun Rheoli Risg Cymunedol (CRMP) 2040. Mae ein Cynllun Rheoli Risgiau Cymunedol yn tynnu sylw at sut rydym yn bwriadu mynd i'r afael â'r risgiau, y bygythïadau a'r heriau sy'n wynebu ein cymunedau a sut yr ydym yn bwriadu eu hwynebu a'u lleihau, gan sicrhau bod ein hasedau a'n hadnoddau yn cael eu defnyddio'n llwyddiannus, gan ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

Yn ystod cyfnod datblygu Cynllun Rheoli Risg Cymunedol (CRMP) 2040, rhoddwyd cyfle i Dîm Arwain Gweithredol (ELT) y Gwasanaeth a Thîm Arwain y Gwasanaeth (SLT) adolygu Gweledigaeth, Cenhadaeth a Gwerthoedd y Gwasanaeth trwy gyfres o weithdai. Arweiniodd hyn at greu Gweledigaeth newydd, i un a oedd yn fwy cydnaws â dyheadau hirdymor y Gwasanaeth ac a oedd yn adlewyrchu'n well y blaenoriaethau allweddol a nodwyd ac a amlinellwyd yn y CRMP 2040 drafft.

Roedd yr adborth a dderbyniwyd o'r gweithdai hefyd yn nodi ei bod yn briodol dileu'r Genhadaeth a'r Gwerthoedd blaenorol a chyflwyno Ymddygiadau. Cytunwyd i fabwysiadu cyfres o Ymddygiadau, a oedd, ar ôl ystyriaeth ofalus, yn cyd-fynd â Cod Moeseg Craidd ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân, y Fframwaith Arweinyddiaeth a Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus, a adwaenir yn anffurfiol fel Egwyddorion Nolan. Mae'r rhain wedi'u datblygu i gefnogi ymagwedd gyson at foeseg, gan gynnwys ymddygiad y gwasanaethau tân ac achub. Rydym yn hyderus y bydd cyflwyno'r Ymddygiadau hyn yn helpu gyda'n dyhead i esblygu ein diwylliant sefydliadol er mwyn sicrhau ein bod yn gweithredu o fewn y safonau a ddisgwyilir gan Wasanaeth Tân ac Achub modern a sicrhau bod y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu yn cael eu cefnogi yn y ffordd orau. posibl.



Cydnabuwyd bod cyflawni'r blaenoriaethau a'r amcanion a amlinellwyd yn CRMP 2040, yn dibynnu ar ystod o swyddogaethau galluogi, sy'n chwarae rhan hollbwysig yn swyddogaeth y sefydliad o ddydd i ddydd. Canlyniad hyn oedd cyflwyno set o alluogwyr, a fydd nid yn unig yn cynorthwyo i gyflawni'r amcanion ond hefyd yn sicrhau bod gennym y darpariaethau yn eu lle i gefnogi gwelliant parhaus ac ystyrlon.

Bydd defnyddio data i nodi unrhyw risgiau a heriau canfyddedig yn ein cymunedau yn ein helpu i deilwra ein gwasanaethau'n briodol a lleihau'r risgiau hynny trwy'r gwasanaethau a ddarparwn, trwy roi mwy o ffocws ar sut rydym yn cyflawni ein swyddogaethau atal, amddiffyn ac ymateb. Bydd y gwaith hwn hefyd yn ein galluogi i dargedu ein hadnoddau i atal digwyddiadau, gan sicrhau hefyd bod ein hadnoddau yn y lleoliadau cywir i ddiogelu'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu orau pe bai argyfwng.

At hynny, bydd trefniadau monitro a gwerthuso effeithiol yn ein galluogi i gynllunio ein gweithgarwch yn y dyfodol, gwella diogelwch y cyhoedd a lleihau difrifoldeb y digwyddiadau rydym yn eu mynychu. Byddwn hefyd yn canolbwyntio ar ein diben cyfreithlon, deall anghenion ein cymunedau, a lliniaru effaith argyfyngau ar y bobl sy'n byw, gweithio a theithio drwy ganolbarth a gorllewin Cymru.





Paratoi ein Cynllun Rheoli Risg Cymunedol

Wrth gynhyrchu ein CRMP, gwnaethom ystyried ystod eang o ddata, deallusrwydd a gwybodaeth i sicrhau ein bod yn gwneud y penderfyniadau cywir i warantu diogelwch parhaus pobl, adeiladau a chymunedau canolbarth a gorllewin Cymru.

Gan ddefnyddio'r holl ddata a gasglwn, byddwn yn gwneud penderfyniadau gwybodus am y risgiau yn ein cymunedau, y galw am ein gwasanaethau a'r adnoddau sydd eu hangen arnom i sicrhau ei bod yn parhau i fod yn effeithiol ac effeithlon.



PERYGL

Trwy wybodaeth leol, gweithio mewn partneriaeth a data sy'n cael ei lywio gan gudd-wybodaeth, byddwn yn nodi pobl, adeiladau, a lleoedd o fewn ein cymunedau lle mae tebygolrwydd y bydd digwyddiad brys yn digwydd. Drwy'r broses hon, gallwn flaenoriaethu'r dinasyddion mwyaf agored i niwed, cydweithio â'r bobl sy'n gyfrifol am adeiladau ac amddiffyn y rhai sy'n byw, gweithio ac yn ymweld â chanolbarth a gorllewin Cymru.



GOFYN

Rydyn ni'n defnyddio gwybodaeth hanesyddol am ddigwyddiadau ac yn dadansoddi sut rydyn ni wedi ymateb iddyn nhw, er mwyn deall yn well beth ddigwyddodd a pha mor effeithiol ac effeithlon rydyn ni wedi bod. Mae hyn yn ein galluogi i gynllunio ymateb effeithiol ac effeithlon i argyfyngau tebyg a allai ddigwydd yn y dyfodol, gan roi gwybodaeth hanfodol i ni i sicrhau bod gennym y bobl iawn, yn y lle iawn, gyda'r offer a'r hyfforddiant gorau i amddiffyn ein cymunedau.



ADNODDAU

Rydym yn derbyn ein cyllid drwy ardoll o'r chwe ardal awdurdod lleol rydym yn eu gwasanaethu, yn ogystal ag o grantiau ac fel pob sefydliad, mae gennym gyllideb benodol i'w gwario ar ein staff, ein hoffer, a'n gwasanaethau. Wrth benderfynu sut i reoli ein hymateb gweithredol orau, rhaid i ni feddwl am sut rydym yn gwario ein cyllideb i sicrhau ein bod yn cael yr effaith fwyaf cadarnhaol ar ein cymunedau tra'n dyrannu arian mewn ffordd gyfrifol a dyfeisgar.



Ein Themâu – Atal ac Amddiffyn, Ymateb a Chorfforaethol.

Mae ein Cynllun Rheoli Risg Cymunedol (CRMP) 2040 yn canolbwyntio ar dri o themâu rhyng-gysylltiedig, Atal ac Amddiffyn, Ymateb a Chorfforaethol.

Atal ac Amddiffyn

Cadw ein cymunedau'n ddiogel drwy atal tanau ac argyfyngau eraill rhag digwydd drwy ein dealltwriaeth o risg.



Ymateb

Sicrhau bod gennym drefniadau ymateb cynaliadwy yn y lle iawn, gyda'r bobl gywir, gan ddefnyddio'r adnoddau cywir.



Corfforaethol

Darparu Gwasanaeth effeithiol ac effeithlon sy'n ystyried anghenion ein staff, ein cymunedau a'n hamgylchedd.





Gweledigaeth ac Ymddygiad



EIN GWELEDIGAETH

I ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i gymunedau Canolbarth a Gorllewin Cymru.

OUR VISION

To deliver the best possible service for the communities of Mid and West Wales.

#EichGTACGC

#YourMAWWFRS





Ymddygiadau

Byddwn i gyd yn fodolau rôl cadarnhaol a byddwn yn ymddwyn yn broffesiynol trwy arddangos yr ymddygiadau canlynol



Bod yn Atebol

Byddwn yn atebol am bopeth a wnawn, yn parhau i fod yn agored i adborth adeiladol, ac yn herio pob ymddygiad sy'n methu cwrdd â'r safonau uchaf.



Dangos Uniondeb

Byddwn yn gweithredu gyda gonestrwydd yn agored, yn dryloyw ac yn gyson ym mhopeth a wnawn.



Bod yn Foesegol

Byddwn yn cefnogi ac yn hyrwyddo gwerth tegwch, amrywiaeth, cynhwysiant a chynaliadwyedd o fewn y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu a'r penderfyniadau a wnawn.



Bod yn Barchus

Byddwn yn trin pawb â pharch, gan wneud penderfyniadau heb ragfarn.



Bod yn Ddiduedd

Byddwn yn sicrhau bod buddiannau gorau ein cyhoedd, cymuned a defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu rhoi yn gyntaf lle bynnag y bo modd.



Galluogwyr

Mae cyflawni'r blaenoriaethau a'r amcanion a amlinellir gennym yn y Cynllun hwn yn dibynnu ar ystod o swyddogaethau galluogi, ac mae pob un ohonynt yn chwarae rhan hanfodol yn swyddogaeth y sefydliad o ddydd i ddydd wrth sicrhau bod gennym y darpariaethau ar waith i gefnogi gwelliant parhaus ac ystyrlon.



Ein Pobl

Rydym yn cydnabod bod ein pobl yn ganolog i'n sefydliad ac yn allweddol i gyflawni popeth a wnawn yn llwyddiannus. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod ein gweithlu'n cynrychioli'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu wrth eu hysbrydoli a'u hannog i fod y gorau y gallant fod. Bydd ein pobl yn cael eu cefnogi gan y Gwasanaeth gyda'u hiechyd a'u lles i gael y gwytnwch personol sydd ei angen arnynt i gyflawni eu rôl.



Arweinyddiaeth a Rheolaeth: Llywodraethu, gwneud penderfyniadau a gwelliant parhaus.

Rydym yn darparu arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol sy'n rhagweithiol ac sy'n ein galluogi i addasu'n llwyddiannus i gyfleoedd sy'n dod i'r amlwg, bygythiadau posibl, a heriau. Rydym yn gyfrifol am y penderfyniadau a wnawn. Mae llywodraethu da a gwneud penderfyniadau cyfrifol yn hanfodol er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu'r gwasanaethau gorau i'n cymunedau.

Rydym yn cydnabod nad mater o gymryd cyfrifoldeb yn unig yw atebolrwydd – mae'n golygu ymrwymo i gyfres o weithredoedd, agweddau, dyheadau a disgwyliadau sy'n sefydlu sut rydym yn arwain ac yn rheoli, y gwerth y gallwn ei ychwanegu at ein gwasanaeth presennol, a llywio unrhyw arloesedd yr ydym am ei wneud.



Cydnwethedd ariannol

Fel gydag unrhyw sefydliad, mae cynaliadwyedd ariannol yn allweddol i lwyddiant hirdymor. Er ein bod yn setlo ein cyllideb yn flynyddol, byddwn yn gweithio'n galed i reoli ein cyllideb, ein rhaglen gyfalaf a'n trefniadau rheoli ariannol i sicrhau y gallwn gynllunio a darparu Gwasanaeth effeithiol ar gyfer y tymor hwy.



Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol

Mae hunanreoleiddio ein cyfraniad i lesiant Cymru drwy fesurau amgylcheddol a chymdeithasol yn chwarae rhan hanfodol yn ein Gwasanaeth. Bod yn gyfeillgar i'r amgylchedd; hyrwyddo tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant yn y gweithle; rhoi yn ôl i'r gymuned; a bydd sicrhau bod penderfyniadau busnes yn foesebol i gyd wrth wraidd ein Gwasanaeth a bydd yn llywio'n uniongyrchol y camau gweithredu a gymerwn o ddydd i ddydd.



Strategaeth Technolegau Cyfathrebu Digidol a Gwybodaeth

Mae Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) yn chwarae rhan ganolog wrth ddarparu'r offer, y galluoedd a'r seilwaith sy'n angenrheidiol i gyflawni ein dyheadau strategol. Rydym yn defnyddio technolegau digidol a gwybodaeth i gefnogi ein darpariaeth weithredol a thrawsnewid busnes, a byddwn yn gwella hyn yn barhaus wrth i dechnoleg fwy newydd ddod ar gael. Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i fanteisio ar atebion technoleg ddigidol a gwybodaeth i gyflawni ein hamcanion strategol.



Partneriaethau a Chydweithio

Mae ein llwyddiant yn y dyfodol yn uniongyrchol gysylltiedig â sut rydym yn gweithio gydag eraill. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd partneriaethau ystyrlon ac effeithiol a'r angen i ddatblygu a chynnal mentrau cydweithredol gyda rhanddeiliaid allweddol. Heb os, gall partneriaethau a chydweithio lle bo'n briodol gefnogi darparu gwell canlyniadau i'n cymunedau tra'n chwarae rhan wrth ddarparu ein gwasanaethau mewn ffordd well, fwy cost-effeithiol ac effeithlon.



Ein Dangosyddion Perfformiad

Dros y degawd diwethaf, drwy Gynllunio Gwelliant a Lleihau Risg, bu gostyngiad sylweddol yn nifer y digwyddiadau a fynychwyd a chanlyniadau gwell i'r rhai yr effeithir arnynt a'r cymunedau lle maent yn digwydd.

Mae'r tabl yn dangos y gostyngiad canrannol yn nifer y digwyddiadau, yr anafiadau a'r marwolaethau dros y 10 mlynedd diwethaf, sy'n rhoi darlun clir o lwyddiant.

	2024/2025 Gwirioneddolion	Cyfartaledd 2015/16 i 2019/20	Cyfartaledd 2020/21 i 2024/25	Newid Canrannol Cyfartalog 2015/16 i 2024/25	Targed Arfaethedig
Tanau	2,951	3,287	2,987	-9.1%	-20%
Galwadau Diangen	5,083	4,789	5,178	8.1%	-10%
Gwrthdrawiadau ar y ffordd	769	973	710	-27.0%	-10%
Pob galwad arall	3,652	4,625	3,337	-27.8%	Dim targed wedi ei osod
Marwolaethau ac anafiadau i'r ysbyty o bob tân.	46	61	41	-32.8%	-10%
Marwolaethau a phobl a gafodd eu derbyn i'r ysbyty o ganlyniad i bob tân damweiniol.	41	55	36	-34.5%	-10%
Canran y tanau anheddu a oedd wedi'u cynnwys yn yr ystafell lle cychwynnodd.	85.7%	85.3%	84.7%	-0.7%	Cynnal y targed o 87% os yn bosibl



Isod mae dadansoddiad o Ddangosyddion Perfformiad y Sector ar gyfer 2024/2025.

Dangosydd Perfformiad	2024/2025 Gwirioneddolion	Cyfartaledd 2015/16 i 2019/20	Cyfartaledd 2020/21 i 2024/25	Newid Canrannol Cyfartalog 2015/16 i 2024/25
Cyfanswm yr holl danau bwriadol yr aethpwyd atynt fesul 10,000 o anheddau	1,514	1,552	1,483	-4.4% 
Cyfanswm yr holl danau damweiniol yr aethpwyd atynt fesul 10,000 o anheddau	1,437	1,732	1,500	-13.4% 
Cyfanswm y marwolaethau tân fesul 100,000 o'r boblogaeth	4	6	6	-0.0%
Marwolaethau a achoswyd gan danau a ddechreuwyd yn ddamweiniol mewn anheddau fesul 100,000 o'r boblogaeth	2	5	4	-20.8% 
Anafiadau (ac eithrio cymorth cyntaf ac archwiliadau rhag ofn) yn sgil tanau a ddechreuwyd yn ddamweiniol mewn anheddau fesul 100,000 o'r boblogaeth	33	40	22	-45.0% 
Anafiadau (ac eithrio cymorth cyntaf ac archwiliadau rhag ofn) yn sgil tanau a ddechreuwyd yn fwriadol mewn anheddau fesul 100,000 o'r boblogaeth	3	4	2	-50.0% 
Cyfanswm y galwadau diangen a achoswyd gan ganfod tân awtomatig fesul 1,000 eiddo annomestig	656	1,491	1,351	-9.4% 
Tanau mewn anheddau yr aethpwyd atynt lle nad oedd larwm mwg wedi'i osod fel % o'r holl danau mewn anheddau yr aethpwyd atynt	47.5%	41.0%	47.2%	-15.1% 



Datganiad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Rydym wedi ymrwymo i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac wedi croesawu ein dyletswyddau a'n rôl fel partner statudol ar draws ein chwe Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Rydym yn deall diben ac amcan y Ddeddf ac rydym wedi ymrwymo i sicrhau ein bod yn ystyried yr effaith hirdymor y gallai ein penderfyniadau ei chael ar y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

Byddwn felly'n sicrhau, wrth wneud penderfyniadau, ein bod yn ystyried yr effaith y gallai'r penderfyniadau ei chael ar y bobl sy'n byw eu bywydau yng Nghymru nawr ac yn y dyfodol. Byddwn hefyd yn cofio ystyried amrywiaeth gyfoethog pobl yng nghanolbarth a gorllewin Cymru a pharhau i gydweithio ag eraill i helpu'r Awdurdod i gyflawni ei Amcanion, ac i'r gwrthwyneb, i helpu eraill i gyflawni eu hamcanion.

Egwyddor Datblygu Cynaliadwy.

Hirdymor

Pwysigrwydd cydbwysu anghenion tymor byr â'r anghenion i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion hirdymor hefyd.



Beth ydym ni'n ei wneud i gyflawni'r egwyddorion hyn?

Byddwn yn parhau i edrych ar dueddiadau tymor hir a chynnal dadansoddiad o'n gweithredoedd, er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau a ddarparwn yn rhagweithiol yn hytrach nag yn adweithiol. Bydd hyn yn diwallu anghenion ein cymunedau a'n rhanddeiliaid drwy wneud ein cymunedau mor ddiogel â phosibl, a phheidio â pheryglu anghenion cenedlaethau'r dyfodol.

Rydym wedi ymgorffori meddwl hirdymor yn ein harferion busnes a'n Hamcanion Gwella a Llesiant, a byddwn yn parhau i fabwysiadu dull sganio gorwel fel rhan o'n prosesau cynllunio.


Wrth bennu ein Hamcanion Gwella a Llesiant, rydym wedi sicrhau ein bod yn monitro tueddiadau'r dyfodol a heriau hirdymor a fydd yn cael effaith andwyol ar y gwasanaethau a ddarparwn.

Byddwn yn parhau i addasu ac arallgyfeirio ein gweithgareddau i ddiwallu anghenion ein cymunedau yn well, yn ogystal â gwella'r ffordd yr ydym yn diwallu anghenion y bobl sy'n gweithio, yn byw, ac yn ymweld â'n cymunedau i'w gwneud yn fwy diogel.



Atal

Atal problemau rhag digwydd neu waethygu.




Mae atal, amddiffyn ac ymyrraeth gynnar yn parhau i fod yn flaenoriaeth i ni, ac rydym wedi ymrwymo i wneud y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu mor ddiogel â phosibl, trwy adolygu ac addasu ein gwasanaethau ymyrraeth yn barhaus.

Byddwn yn parhau i gymryd gweithgaredd rhagweithiol ac integredig, ac ymagwedd gydweithredol tuag at y gwasanaethau rydym yn eu darparu, drwy weithio'n agos gyda sefydliadau partner newydd a rhai presennol i gyflwyno negeseuon diogelwch wedi'u teilwra, gan sicrhau'r effaith gadarnhaol fwyaf posibl yn ein cymunedau. Mae ein ffocws ar atal yn canolbwyntio ar atal problemau rhag digwydd neu waethygu trwy sicrhau bod ymyrraeth gynnar yn cael ei chyflawni a bod ein cymunedau mor wybodus â phosibl.

Integreiddio

Ystyried sut y gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar eu hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.




Rydym wedi mabwysiadu dull integredig wrth ddatblygu ein Hamcanion Gwella a Llesiant, gan ein bod yn credu y bydd gweithio mewn ffordd fwy integredig yn ein galluogi i ddatrys problemau'n fwy effeithiol ac effeithlon.

Trwy ymgymryd â dull ar y cyd i wneud y mwyaf o gyfleoedd, a chydweithio â'n partneriaid a'n rhanddeiliaid, byddwn yn lleihau dyblygu ymdrech ar draws sefydliadau'r sector cyhoeddus ac yn ogystal â rhannu adnoddau, dysgu a gwybodaeth er budd ein cymunedau a chenedlaethau'r dyfodol.



Cydweithio

Gweithredu mewn cydweithrediad ag unrhyw berson arall (neu wahanol rannau o'r corff ei hun) a allai helpu'r corff i gyflawni ei amcanion llesiant.



Mae cydweithio â'n partneriaid yn allweddol bwysig i ni fel Gwasanaeth Tân ac Achub. Rydym yn cydweithio â Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru mewn sawl ffordd ac wedi mabwysiadu dull "Cymru Gyfan" mewn sawl maes.

Mae'r dull cydweithredol hwn hefyd wedi nodi'r dulliau cyflenwi mwyaf cost-ffeithiol ac effeithlon ar draws y tri Gwasanaeth Tân ac Achub ar sawl mater pwnc.

Rydym yn deall bod gweithio'n agos gyda'n partneriaid yn sicrhau'r effaith fwyaf posibl gan ein negeseuon diogelwch ar ein cymunedau ac yn cyflwyno negeseuon diogelwch ar y cyd.

Felly, byddwn yn parhau i adeiladu ar berthnasoedd presennol ac yn chwilio am gyfleoedd newydd i ddatblygu partneriaethau newydd a phresennol er mwyn defnyddio'n hasedau yn y modd mwyaf effeithiol.

Cyfranogiad

Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r corff yn ei gwasanaethu. I.



Fe wnaethom ymgynghori'n eang â'n rhanddeiliaid, sefydliadau partner a'r cyhoedd.

Byddwn yn ymgysylltu'n llawn â chymunedau lleol drwy ddigwyddiadau ac ymgynghoriadau, gan eu hannog i gymryd rhan yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

Mae hyn yn hyrwyddo deialog ddwy ffordd gan sicrhau eu bod yn cael dweud eu dweud ar sut rydym yn cyflawni ein Hamcanion Gwella a Llesiant.

Mae annog cyfranogiad a rhan y cyhoedd yn y broses benderfynu yn bwysig dros ben i ni.



Bydd ein Hamcanion Gwella a Lles yn helpu i gyflawni'r saith **Nod Llesiant** mewn sawl ffordd, ac rydym wedi sicrhau bod y camau gweithredu ar gyfer ein Hamcanion Gwella a Llesiant wedi'u datblygu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

Bydd ein cyfraniad tuag at gyflawni **Cymru Lewyrchus** yn cynnwys darparu mwy o wybodaeth a chefnogaeth gan bob un o'n cysylltiadau pan fyddwn yn ymweld â phobl yn ein cymunedau i gadw pobl yn fwy diogel yn eu cartrefi. Byddwn hefyd yn cyfrannu at gyflawni **Cymru Lewyrchus** drwy adeiladu ar berthnasoedd presennol a chwilio am gyfleoedd newydd i sicrhau'r budd mwyaf posibl i'r gymuned a gwella ein cyfraniad i'r economi leol a lleihau costau i gymdeithas.

Bydd cyfraniadau tuag at **Gymru Wydn** yn cael eu cyflawni drwy ystyried technoleg ac arloesedd newydd o fewn ein Gwasanaeth. Byddwn hefyd yn deall yn well ein heffaith ar yr amgylchedd er mwyn sicrhau gostyngiadau yn ein hól troed carbon, tra'n parhau i gynnal safon uchel o ddarpariaeth gwasanaethau.

Bydd ein cyfraniad tuag at **Gymru o gymunedau cydlynus** yn cael ei gyflawni drwy wella ein datrysiadau digidol a hyrwyddo technolegau gwybodaeth a chyfathrebu, trwy gyfrannu at ddilyniant cysylltedd a'n darpariaeth o wasanaethau i'r cyhoedd.

Bydd **Cymru iachach** yn cael ei gyflawni drwy gynnydd mewn cysylltedd a digideiddio, a fydd yn cynorthwyo'r Gwasanaeth i ddarparu ein gwasanaethau brys a diogelwch cymunedol i'n cymunedau, gan sicrhau y gallwn ddarparu cyngor a darparu ein rhaglenni ymyrraeth i gynorthwyo unigolion i wella eu ffordd o fyw.

Helpu i greu **Cymru Fwy Cyfartal** byddwn yn blaenoriaethu ein hymyriadau i unigolion sydd fwyaf agored i niwed i wella eu hamgylchiadau ac i roi cyngor iddynt i'w galluogi i wella eu ffordd o fyw.

Ein cyfraniad at **Gymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** fydd parhau i annog a hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg o fewn ein maes gwasanaeth. Lle bo'n bosibl, hyrwyddo mynediad at ein gwasanaethau trwy ddefnyddio'r Gymraeg, er mwyn sicrhau bod ein rhanddeiliaid yn gallu cyfathrebu â ni yn eu dewis iaith. Byddwn hefyd yn parhau i annog ein gweithwyr i siarad eu dewis iaith yn y gweithle a darparu cyfleoedd i weithwyr sy'n dymuno dysgu Gymraeg.



Byddwn yn dylanwadu ar gyflawni **Cymru sy'n Gyfrifol yn fyd-eang** drwy barhau i wneud newidiadau sylweddol i'r ffordd rydym yn gweithio mewn sawl maes, megis annog trefniadau gweithio hybrid gan ddefnyddio technoleg, mabwysiadu'r Cynllun Beicio i'r Gwaith, Cynllun Aberthu Cyflog Car, gosod paneli solar ar adeiladau sy'n eiddo i'r Gwasanaeth, yn ogystal â gosod pwyntiau gwefru EV. Byddwn hefyd yn hyrwyddo lleihau'r defnydd o boteli dŵr plastig untro a faint o bapur a ddefnyddir yn ein gweithgareddau drwy annog cyflwyno pob gohebiaeth electronig a dogfennaeth.

Fel y nodir yn y Ddeddf, rhaid i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ddefnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy i sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl at gyflawni'r saith nod llesiant cenedlaethol drwy fynd i'r afael ag anghenion llesiant penodol yr ardal. Rydym wedi croesawu'r egwyddor hon ac rydym wedi ymrwymo'n llwyr i ddarparu'r cyfraniad mwyaf posibl fel partner statudol i gyflawni'r nodau llesiant ac wedi hynny rydym wedi gweithredu'r ethos o sicrhau bod yr anghenion presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol yn ein harferion busnes.


Adlewyrchir arwyddocâd yr Amcanion sydd wedi'u cynnwys ym mhob un o'r chwe Cynllun Lles y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, yn ein Hamcanion Gwella a Llesiant ein hunain sy'n sicrhau bod cydweithio â'n partneriaid i sicrhau gwell canlyniadau i'n cymunedau yn parhau i fod yn flaenoriaeth.

Nid yn unig yr ydym wedi ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wrth ffurfio'r Cynllun hwn, ond cafodd sawl ffordd newydd o weithio hefyd eu hymgorffori yn y gwaith o redeg y sefydliad o ddydd i ddydd. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ddylanwad mawr ar Edau Aur y Gwasanaeth. O'n cynlluniau datblygu unigol a'n strategaethau adrannol, hyd at ein Cynllun Rheoli Risg Cymunedol 2040, mae ethos y Ddeddf ar flaen ein meddyliau. P'un a yw'n ffurfio partneriaethau newydd; neu fabwysiadu dull sganio gorwelion fel rhan o'n prosesau cynllunio yn y dyfodol, gallwch fod yn sicr y bydd anghenion y presennol yn cael eu diwallu, heb gyfaddawdu ar genedlaethau'r dyfodol.



Sustainable Development Principle and Well-being Goals

How our Improvement and Well-being Objectives contribute to the Sustainable Development Principle and Well-being Goals.

	Tymor Hir Pwysigrwydd cydbwysu anghenion tymor byr â'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion hirdymor hefyd. 	Atal Sut y gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion 	Integreiddio Ystyried sut y gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r amcanion llesiant, ar eu hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrrff cyhoeddus eraill. 	Cydweithredu Gweithredu ar y cyd ag unrhyw berson arall (neu wahanol rannau o'r corff ei hun) a allai helpu'r corff i gyflawni ei amcanion llesiant ei hun. 	Cynnwys The importance of involving people with an interest in achieving the well-being goals and ensuring that those people reflect the diversity of the area which the body serves. 
Amcan 1 Byddwn yn gwella ein diwylliant sefydliadol i sicrhau ein bod yn gweithredu o fewn y safonau a ddisgwylir gan Wasanaeth Tân ac Achub modern. 	Bydd gwella'r diwylliant sefydliadol yn sicrhau bod y Gwasanaeth yn gweithredu o fewn y safonau a ddisgwylir gan Wasanaeth Tân ac Achub modern, trwy esblygu yn unol â heriau'r presennol a'r dyfodol. Mae buddsoddi mewn datblygu staff, darpariaethau lles, technoleg a phartneriaethau cymunedol yn helpu'r Gwasanaeth i baratoi ar gyfer risgiau sy'n dod i'r amlwg a newidiadau cymdeithasol.	Bydd cynllunio'r gweithlu yn effeithiol yn sicrhau bod gan y Gwasanaeth y bobl iawn wedi'u recriwtio a'u hyfforddi, yn gweithio yn y lleoliadau cywir i ddarparu'r safonau gwasanaeth uchaf i'w gymunedau. Bydd hefyd yn sicrhau bod arferion recriwtio a datblygu ac arferion gwaith yn esblygu i ddiwallu anghenion newidiol y cymunedau.	Bydd gwella'r diwylliant sefydliadol a llesiant yn sicrhau bod y Gwasanaeth yn gweithio'n gydlynol â sefydliadau partner a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i gyfrannu at newidiadau cymdeithasol a gwella canlyniadau i gymunedau.	Bydd gwella diwylliant sefydliadol a llesiant yn parhau i gefnogi rhannu arfer da ar draws sefydliadau a sectorau i sicrhau mai dim ond yr arferion gorau o ran pobl sy'n cael eu gweithredu.	Mae ymgysylltu â'r gweithlu, ein partneriaid ac asiantaethau eraill ynglŷn â'r sgiliau a'r cymwyseddau sydd eu hangen i wasanaethu ein cymunedau yn well yn rhan annatod o adrannau Hyfforddi a Datblygu'r Gwasanaeth.
Amcan 2 Byddwn yn parhau i fod yn ymrwymedig i wneud gwelliannau i'n system Dyletswydd Ar Alwad i gefnogi anghenion ein cymunedau. 	Mae gwneud gwelliannau i'r system Dyletswydd Ar Alwad yn sicrhau bod y Gwasanaeth yn fwy parod i fynd i'r afael â heriau'r presennol a'r dyfodol, trwy ymateb yn effeithiol a diogelu cymunedau. Mae hefyd yn sicrhau gweithlu cynaliadwy er mwyn parhau i wasanaethu cymunedau.	Bydd gwneud gwelliannau i'r system Dyletswydd ar Alwad yn cynorthwyo'r Gwasanaeth i weithredu i atal problemau rhag cynyddu drwy gael system Dyletswydd ar Alwad effeithlon ac effeithiol sy'n sicrhau cefnogaeth brydlon i gymunedau.	Bydd gweithio ar y cyd â Gwasanaethau Tân ac Achub a chyrrff sector cyhoeddus eraill i wneud gwelliannau i'r system dyletswydd Ar Alwad yn helpu i sicrhau canlyniadau parhaol i gymunedau.	Mae dull cydweithredol gyda staff a phartneriaid allanol yn helpu i gael gwared ar rwystrau i heriau recriwtio a chadw personél Ar Alwad, ac yn cynorthwyo i adeiladu partneriaethau cryf.	Mae cynnwys staff yn y gwaith o ddylunio a darparu gwasanaethau Ar Alwad yn helpu i sicrhau eu bod yn addas i'r diben a gall y safbwyntiau a'r adborth a gesglir ddylanwadu ar newid cadarnhaol.



Amcan 3 Byddwn yn adolygu'r risgiau o fewn ein cymunedau ac i'n pobl. 	Mae adolygu'r risgiau o fewn cymunedau yn helpu i nodi tueddiadau a bygythiadau sy'n dod i'r amlwg er mwyn cynorthwyo i ddatblygu strategaethau hirdymor a buddsoddi mewn galluoedd yn y dyfodol i amddiffyn cymunedau.	Mae deall risg gymunedol yn galluogi datblygu gwasanaethau atal a diogelu. Mae hefyd yn cynorthwyo gyda chefnogi arferion gweithredol mwy diogel a nodi risgiau staff gan alluogi ymyrraeth gynnar.	Mae'n cefnogi cynllunio ar draws sectorau ar gyfer unigolion sy'n agored i niwed neu gymunedau risg uchel.	Mae cydweithredu yn helpu i gael cyd-ddealltwriaeth o risg, sy'n helpu i ddatblygu atebion cydgysylltiedig, a chyfuno arbenigedd, data ac adnoddau, gan leihau unrhyw ddyblygu ymdrech.	Mae cynnwys staff a chymunedau wrth adolygu sgiliau arbenigol a lleoliadau gorsafoedd tân yn sicrhau bod yr holl risgiau yn cael eu nodi a'u deall, gan ganiatáu i randdeiliad deimlo'n rhan o'r gwasanaethau a ddarperir a chyfrannu at eu siapio.
Amcan 4 Byddwn yn adolygu ac yn gweithredu newidiadau i'r ffordd yr ydym yn ymateb i argyfyngau i fodloni gofynion newidiol ein cymuned. 	Mae adolygu'r ffordd y mae'r Gwasanaeth yn ymateb i argyfyngau yn helpu i baratoi ar gyfer risgiau yn y dyfodol, ac yn sicrhau bod y Gwasanaeth yn parhau i fod yn hyblyg a'i fod yn gallu addasu i fodloni gofynion newidiol cymunedau.	Gall adolygu trefniadau darpariaeth frys a'r ffordd y mae gorsafoedd tân yn cael eu staffio helpu i gefnogi ymyriadau cynnar a gall arwain at lai o ddigwyddiadau trwy ddefnydd gwell o ddata atal.	Gall unrhyw newidiadau i'r ffordd y mae'r Gwasanaeth yn ymateb i argyfyngau olygu gweithio gydag asiantaethau partner i sicrhau bod gwasanaethau cydgysylltiedig yn cael eu darparu a lleihau unrhyw ddyblygu ymdrech.	Gall cydweithio ag asiantaethau partner i fynd i'r afael â gofynion newidiol cymunedau arwain at ganlyniadau gwell a chreu perthnasoedd cryf gydag asiantaethau partner.	Mae cynnwys cymunedau yn sicrhau bod unrhyw newidiadau yn y ffordd y mae'r Gwasanaeth yn ymateb i argyfyngau yn adlewyrchu anghenion lleol, gan gynyddu ymddiriedaeth y cyhoedd a chynhwysiant. Mae cynnwys staff a chyrrff cynrychioliadol yn helpu i lunio trefniadau diogel, effeithiol y gall staff eu cyflawni yn hyderus.
Amcan 5 Byddwn yn adolygu ein strategaethau Atal (Diogelwch Cymunedol) a Diogelu (Diogelwch Tân Busnesau) yn rheolaidd i dargedu a chefnogi'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau. 	Mae adolygu trefniadau atal a diogelu yn helpu i gynllunio ar gyfer newidiadau hirdymor mewn risg gymunedol. Bydd darparu ystod o drefniadau atal a diogelu ar y cyd â'n partneriaid yn creu cysylltiadau yn y gymuned sy'n gynaliadwy, gan gael effaith gadarnhaol ar fywydau pobl o ran cynyddu ymwybyddiaeth o'r risgiau yn sgil tanau mewn cartrefi, busnesau ac yn yr amgylchedd cymunedol ehangach, gan greu cymuned sy'n fwy gwydn ac sy'n llai dibynnol ar wasanaethau cyhoeddus.	Gall gwella diogelwch preswylwyr a busnesau drwy ymwybyddiaeth, addysg ac ymyriadau yn ogystal â nodi cyfleoedd i leihau nifer y digwyddiadau a lleihau troseddau leihau'r risg o niwed a dod â buddion economaidd i boblogaeth wardiau, ardaloedd preswyl, cymunedau, busnesau a thu hwnt.	Bydd deall cymunedau a dylanwadu'n gadarnhaol ar eu diogelwch a'u lles ochr yn ochr â phartneriaid yn cyfrannu tuag at amgylchedd cadarnhaol i bawb.	Bydd gweithio gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ac asiantaethau partner yn galluogi'r Gwasanaeth i gyrraedd a chysylltu â phob rhan o gymunedau, gan gael gwared ar ffiniau i ardaloedd llai difreintiedig a dad-stigmatiddio enw drwg a record wael mewn perthynas â statws economaidd-gymdeithasol.	Mae ymgysylltu ag ystod o randdeiliad yn helpu i lunio strategaethau atal priodol, wedi'u targedu, gan sicrhau bod yr ymyriadau'n effeithiol.



Amcan 6 Byddwn yn ymgysylltu ac yn ymgynghori â'n cymunedau i ddeall eu disgwyliadau ohonom. 	Mae cymunedau canolbarth a gorllewin Cymru wrth wraidd popeth y mae'r Gwasanaeth yn ei wneud, ac felly mae cynllunio ar gyfer y tymor hwy yn hynod o bwysig. Mae ymgysylltu ac ymgynghori â chymunedau i ddeall eu disgwyliadau yn helpu i sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn canolbwyntio ar bobl ac yn gynhwysol. Mae hefyd yn helpu i nodi heriau a materion, yn ogystal â risgiau a blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg, sy'n cynorthwyo gyda threfniadau cynllunio tymor hwy.	Mae ymgysylltu ac ymgynghori parhaus yn helpu i annog cyfranogiad y cyhoedd a chodi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau a ddarperir i gymunedau. Ar ben hynny, cynorthwydd i nodi risgiau a gwendidau.	Trwy wella'r ddealltwriaeth o ddysgwyliadau cymunedau trwy ymgynghori ac ymgysylltu, amlygwyd y mannau hynny lle gallai'r Gwasanaeth gyd-fynd yn well â sefydliadau partner.	Defnyddiwyd dull cydweithredol, ac roedd hyn o gymorth i nodi arfer gorau a gwersi a ddysgwyd gan sefydliadau partner, i helpu i lunio dulliau newydd o ymgysylltu â staff a'r gymuned.	Cydnabyddir bod ymgysylltu ac ymgynghori yn unol ag arferion gorau yn arwain at ganlyniadau gwell, gan ganiatáu i brofiadau pobl eraill gael eu clywed, a rhoi gwybodaeth werthfawr a all gefnogi gwneud penderfyniadau effeithiol. Mae gwrandao ar farn yr holl ranndeiliaid yn hynod bwysig i helpu i lunio'r gwasanaethau a ddarperir i gymunedau a thrwy ddeall eu disgwyliadau.
Amcan 7 Byddwn yn gweithio mewn ffordd sy'n ystyriol o'r amgylchedd ac yn gynaliadwy. 	Fe wnaeth ymchwilio i dechnolegau newydd a thechnolegau sy'n dod i'r amlwg barhau i gefnogi'r Gwasanaeth i weithio mewn ffordd sy'n ystyriol o'r amgylchedd ac yn gynaliadwy. Sicrhodd y canlyniad tymor hwy Wasanaeth sy'n gyfrifol yn amgylcheddol trwy wella perfformiad amgylcheddol y Gwasanaeth; gwella effeithlonrwydd yn y defnydd o adnoddau; a lleihau cymaint â phosibl ar yr effaith ar yr amgylchedd.	Trwy ddefnyddio systemau technoleg a meddalwedd i fonitro a dadansoddi data roedd modd gweithredu mesurau ataliol, gan helpu i leihau allyriadau carbon a chael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd a'r cymunedau lleol.	Bydd parhau i integreiddio ac ymgorffori prosesau sy'n amgylcheddol gynaliadwy ledled y Gwasanaeth yn helpu i leihau effaith amgylcheddol gweithgareddau'r Gwasanaeth ar y cymunedau lleol.	Trwy archwilio cyfleoedd i gydweithio â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a sefydliadau partner ar brosiectau amgylcheddol roedd modd rhannu arferion gorau a chaniatáu cyfleoedd i wersi gael eu dysgu, gan arwain at ganlyniadau cadarnhaol i gymunedau.	Trwy gynnwys staff wrth lunio mentrau cynaliadwyedd a darparu addysg ac ymwybyddiaeth, trwy'r Grŵp Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd, llwyddwyd i'w grymuso i gymryd perchnogaeth ar newid amgylcheddol cadarnhaol o fewn y Gwasanaeth.
Amcan 8 Byddwn yn esblygu ein gofynion fflyd ac offer er mwyn i ni allu ymateb yn effeithiol i argyfyngau. 	Mae gofynion fflyd ac offer sy'n esblygu yn sicrhau bod y Gwasanaeth yn gallu cwrrdd â risgiau newydd a risgiau sy'n dod i'r amlwg. Mae'n cefnogi'r Gwasanaeth ymhellach i ymateb yn effeithiol i argyfyngau drwy barhau i fod yn wydn ac yn gynaliadwy.	Mae'n gwella diogelwch diffoddwyr tân ac yn cynorthwyo i ymateb i'r risgiau o fewn cymunedau yn y ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol.	Mae offer modern yn gwella effeithlonrwydd ac yn lleihau'r effaith amgylcheddol.	Mae gweithio ar y cyd â Gwasanaethau Tân ac Achub eraill, asiantaethau partner a gweithgynhyrchwyr yn helpu i nodi arferion gorau a gwersi a ddysgwyd, gan ddarparu mwy o werth am arian.	Mae cynnwys rhanddeiliaid wrth ddatblygu a dylunio atebion yn sicrhau bod gofynion cerbydau ac offer yn bodloni anghenion y defnyddwyr yn y pen draw.



Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol


AMCANION

	Cymru lewyrchus	Cymru gydnherth	Cymru iachach	Cymru sy'n fwy cyfartal	Cymru o gymunedau cydlynus	Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
1 	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
2 	✓	✓	✓	✓	✓		
3 	✓	✓		✓	✓		
4 	✓	✓		✓	✓		
5 		✓	✓	✓	✓		
6 		✓	✓	✓	✓	✓	
7 	✓	✓	✓		✓	✓	
8 		✓			✓		✓



Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, rhaid i bob ardal Awdurdod Lleol yng Nghymru gael Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC). Mae aelodau statudol pob BGC yn cynnwys: Yr Awdurdod Lleol, y Bwrdd Iechyd Lleol, Gwasanaeth Tân ac Achub Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru. Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cwmpasu chwe BGC, sef Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro, Powys ac Abertawe.



BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS
CASTELL-NEDD PORT TALBOT





Datganiad Dyletswydd Economaidd Gymdeithasol


Nod cyffredinol y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yw cefnogi cyrff sector cyhoeddus yng Nghymru i wneud penderfyniadau gwell a fydd yn gwella canlyniadau i bobl a chymunedau sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.

Daeth y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol i rym yng Nghymru ar 31 Mawrth 2021 ac mae'n rhoi cyfrifoldeb cyfreithiol ar gyrff cyhoeddus pan fyddant yn gwneud penderfyniadau strategol i roi sylw dyledus i'r angen i leihau anghydraddoldebau canlyniad sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol. Nod y Gwasanaeth yw cefnogi hyn drwy sicrhau bod pawb sy'n gyfrifol am benderfyniadau strategol yn:

- Ystyried tystiolaeth ac effaith bosibl drwy ymgynghori ac ymgysylltu.
- Deall barn ac anghenion y rhai sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol.
- Yn croesawu her a chraffu.
- Ysgogi newid yn y ffordd y gwneir penderfyniadau a'r ffordd y mae'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn gweithredu.

Mae'r Gwasanaeth wedi dechrau ar raglen ragweithiol o rannu a hyfforddi gwybodaeth mewn perthynas â'r Ddyletswydd a bydd yn parhau i sicrhau bod ystyriaeth briodol yn cael ei darparu wrth benderfynu ar flaenoriaethau a phennu amcanion.







Y Gymraeg a'r Gwasanaeth

Mae Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi amrywiaeth gyfoethog ein cymunedau ac arwyddocâd ein treftadaeth ddiwylliannol. Felly, rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin ar sail cydraddoldeb wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru.

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn nodi fframwaith cyfreithiol ar gyfer gosod a monitro Safonau'r Gymraeg ar gyrff cyhoeddus a sefydliadau eraill. Fel Awdurdod, mae gennym ddyletswydd gyfreithiol i gydymffurfio â'r set o Safonau a osodwyd ar yr Awdurdod gan Gomisiynydd y Gymraeg ar 30 Medi 2016. Mae ein hysbysiad cydymffurfio, prosesau mewnol ar gyfer gweithredu a monitro, ynghyd ag adroddiadau blynyddol ar gael ar ein gwefan Tudalen Safonau'r Gymraeg.

Fel Awdurdod, rydym wedi ymateb yn gadarnhaol i Safonau'r Gymraeg, gan ddefnyddio'r Safonau i ddatblygu ein hymrwymiad a'n dyhead i ddarparu gwasanaethau'n deg i bob rhan o ganolbarth a gorllewin Cymru. Rydym hefyd yn cydnabod ein dyletswydd tuag at ein staff ein hunain, y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn drigolion canolbarth a gorllewin Cymru ac sydd eu hunain yn adlewyrchu cyfansoddiad ieithyddol a diwylliannol eu cymunedau eu hunain.

Byddwn yn parhau i nodi cyfleoedd i gydweithio ymhellach gyda'n partneriaid a gwasanaethau tân ac achub eraill ledled Cymru i hyrwyddo, annog a chefnogi'r defnydd ehangach o'r Gymraeg yn ein gweithleoedd i ddiwallu anghenion iaith unigol ac i ddarparu dewis iaith gwirioneddol i'n cymunedau.





Amcanion Gwella a Llesiant

Rydym wedi nodi 8 Amcan Gwella a Llesiant sydd wedi'u datblygu drwy gyfres o weithdai gyda staff, Aelodau Etholedig a Chyrff Cynrychioliadol. Credwn y bydd y meysydd hyn yn galluogi gwelliannau i ddarparu gwasanaeth mwy effeithlon ac effeithiol i gymunedau canolbarth a gorllewin Cymru.

Mae gan bob Amcan Gwella a Llesiant gamau gweithredu penodol sydd wedi'u datblygu, i helpu i'w cyflawni drwy gydol y Cynllun Rheol Risg Cymunedol (CRhRC), er enghraifft o fewn 1-2 flynedd (tymor byr), 3-7 mlynedd (tymor canolig), neu 7+ mlynedd (tymor hir).

Byddwn yn cyflawni'r camau gweithredu a'r Amcanion Gwella a Llesiant drwy ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth, a fydd yn creu cyfres o opsiynau, ac yn esgor ar ganlyniadau a arweinir gan gamau gweithredu, a fydd yn sicrhau bod gan y CRhRC sail dda, a'i fod yn hyblyg ac yn effeithiol. Mae'r CRhRC strwythuredig 15 mlynedd yn sicrhau dull cyflwyno graddol, gan gwmpasu anghenion uniongyrchol, tymor canolig a hirdymor y Gwasanaeth a'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu, ac adeiladu'r sylfaen ar gyfer Gwasanaeth Tân ac Achub effeithiol.

Rydym yn hyderus y bydd y dull hwn yn sicrhau bod y CRhRC yn cael ei gyflawni'n llwyddiannus ac yn helpu i gyflawni gweledigaeth y Gwasanaeth, sef darparu'r Gwasanaeth Tân ac Achub gorau posibl i gymunedau canolbarth a gorllewin Cymru.

Timeline	Allwedd
1-2 flynedd 2024-2026 (Tymor Byr)	
3-7 flynedd 2027-2033 (Tymor Canolig)	
7+ flynedd 2034-2040 (Tymor Hir)	

Cymru lewyrchus	Cymru gydnherth	Cymru iachach	Cymru sy'n fwy cyfartal	Cymru o gymunedau cydlynus	Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
						



1


Byddwn yn gwella ein diwylliant sefydliadol i sicrhau ein bod yn gweithredu o fewn y safonau a ddisgwylir gan Wasanaeth Tân ac Achub modern.



Beth ydym ni'n mynd i'w wneud?



Camau Gweithredu	Llinell amser
1.1 Dylunio a gweithredu cynllun sefydliadol hirdymor gyda'r nod o feithrin gwelliant diwylliannol, gyda gwerthusiad parhaus o gynnydd ac effaith.	  
1.2 Cynnal adolygiad o Safonau Proffesiynol a phrosesau mewnol cysylltiedig, gan ymgorffori unrhyw welliannau a nodwyd.	 
1.3 Ymgorffori'r Strategaeth Lles a'r Cynllun Gweithredu Lles i gefnogi iechyd a lles ein staff a gwerthuso eu heffeithiolrwydd.	 
1.4 Adolygu cylch oes gweithwyr a gyrfaoedd i wella cyfleoedd recriwtio, cadw a datblygu i staff. Bydd y meysydd ffocws allweddol yn cynnwys: - Denu, Recriwtio a Chadw - Ymgysylltu - Cyfleoedd Hyfforddiant a Datblygu, gan gynnwys llwybrau sefydliadol - Gwerthuso Staff a Rheoli Perfformiad	 





2


Byddwn yn parhau i fod wedi ymrwymo i wneud gwelliannau i'n system Dyletswydd Ar Alwad i gefnogi anghenion ein cymunedau.



Beth ydym ni'n mynd i'w wneud?



Camau Gweithredu	Llinell amser
2.1 Cynnwys ein holl staff mewn ymchwil i wella arferion gwaith a hyrwyddo diwylliant gweithlu cwbl gynhwysol.	
2.2 Nodi'r gwelliannau sydd eu hangen i wella ein system Dyletswydd Ar Alwad.	 
2.3 Gwerthuso'r gwelliannau sydd wedi'u gweithredu er mwyn deall eu heffeithiolrwydd.	  





3


Byddwn yn adolygu'r risgiau o fewn ein cymunedau ac i'n pobl.



Beth ydym ni'n mynd i'w wneud?



Camau Gweithredu	Llinell amser
3.1 Adolygu ein sgiliau arbenigol ar draws y maes Gwasanaeth.	 
3.2 Adolygu lleoliadau gorsafoedd tân i adlewyrchu'r newid mewn demograffeg a risg cymunedol.	  
3.3 Adolygu a gwerthuso'r ffordd y mae ein gwasanaethau atal ac amddiffyn yn cael eu darparu.	  
3.4 Cynnal a Gwella Iechyd a Diogelwch yn barhaus ar gyfer ein personél, ein hasedau, a'n gweithleoedd.	
3.5 Datblygu a chynnal polisiâu a gweithdrefnau mewn perthynas â rheoli halogyddion a gwreiddio'r rhain o fewn y Gwasanaeth.	 





4


Byddwn yn defnyddio dull seiliedig ar dystiolaeth i adolygu ac i weithredu newidiadau i'r ffordd yr ydym yn ymateb i argyfyngau, er mwyn bodloni gofynion newidiol ein cymuned.



Beth ydym ni'n mynd i'w wneud?



Camau Gweithredu	Llinell amser
4.1 Cynnal adolygiad cynhwysfawr o drefniadau darpariaeth frys, yn unol â risgiau cymunedol.	 
4.2 Adolygu a gweithredu newidiadau i'r ffordd yr ydym yn staffio ein gorsafoedd tân, ein hadrannau, a Rheoli Tân ar y Cyd.	 
4.3 Gweithredu technegau a thactegau diffodd tân newydd yn unol ag arferion gorau'r sector.	 
4.4 Archwilio cyfleoedd, gan gynnwys defnyddio technolegau newydd i wella ein dealltwriaeth o risg Rheoli Tân ar y Cyd ar y pwynt anfon allan.	 
4.5 Archwilio cyfleoedd, gan gynnwys y defnydd o dechnolegau newydd i foderneiddio sut rydym yn cynllunio, yn cofnodi ac yn rheoli argaeledd i rybuddio ac i anfon adnoddau'r Gwasanaeth allan yn ddeallus.	 





5


Byddwn yn yn rheolaidd ein strategaethau Atal (Diogelwch Cymunedol) ac Amddiffyn (Diogelwch Tân Busnes) yn barhaus i dargedu a chefnogi'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau.



Beth ydym ni'n mynd i'w wneud?



Camau Gweithredu	Llinell amser
5.1 Sicrhau bod ein hymyriadau diogelwch tân yn y cartref yn seiliedig ar bobl, a'r risgiau sy'n eu hwynebu i ddarparu gwerth economaidd a chymdeithasol.	
5.2 Darparu ymyriadau diogelwch allweddol i blant a phobl ifanc canolbarth a gorllewin Cymru, drwy ddull cydweithredol a thargedol sy'n diwallu anghenion amrywiol y gymuned.	
5.3 Darparu ymyriadau tanau gwyllt a llosgi bwriadol sy'n darparu gwerth cymunedol go iawn wrth adeiladu ar wybodaeth a phrofiad ein partneriaid wrth ddelio â'u heffeithiau, i wneud ein cymunedau'n fwy diogel.	
5.4 Archwilio opsiynau a rhoi newidiadau ar waith i gwrdd â'r gofynion cyfnewidiol a chymhleth o ran diogelwch adeiladau ac addasu er mwyn diwallu anghenion deddfwriaeth bresennol a newydd.	
5.5 Sicrhau bod ein trefniadau diogelu yn bodloni'r risgiau presennol a rhai sy'n dod i'r amlwg.	
5.6 Darparu gweithgareddau ymyrraeth diogelwch lleol a rhanbarthol, gan gynnwys gorfodi, i sicrhau bod y rhai sydd â dyletswyddau o dan ddeddfwriaeth diogelwch tân yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau.	





6


Byddwn yn ymgysylltu ac yn ymgynghori â'n cymunedau i ddeall eu disgwyliadau ohonom.



Beth ydym ni'n mynd i'w wneud?




Camau Gweithredu	Llinell amser
6.1 Gwella ein dealltwriaeth o ddisgwyliadau ein cymunedau drwy ymgynghori ac ymgysylltu.	
6.2 Nodi a gweithredu dulliau newydd o ymgysylltu â staff a chymunedau.	
6.3 Dylunio, datblygu a gweithredu strategaethau ymgyrchu ac ymgysylltu newydd ac arloesol.	
6.4 Adolygu a gweithredu newidiadau a gafwyd o'r gwersi a ddysgwyd, a gweithredu ar y canfyddiadau ynghylch dulliau o ymgysylltu â staff a'r gymuned.	 
6.5 Ymgorffori'r alinio â phob undeb llafur yn unol â dyletswyddau partneriaeth gymdeithasol o safbwynt newid sefydliadol.	  





7


Byddwn yn gweithio mewn ffordd amgylcheddol gyfeillgar a chynaliadwy.



Beth ydym ni'n mynd i'w wneud?



Camau Gweithredu	Llinell amser
7.1 Gweithio tuag at amcanion Map Ffordd Sero Net y Gwasanaeth 2030, sydd yn ystyried targedau Llywodraeth Cymru yn ei ddatblygiad (a'i amserlen	 
7.2 Nodi a gwerthuso effeithiolrwydd tanwydd amgen ar gyfer ein cerbydau.	
7.3 Ymgorffori a gwerthuso manteision yr uned Hyfforddiant Ymddygiad Tân Adrannau newydd.	
7.4 Adfywio ein hystâd er mwyn sicrhau bod ein gweithleoedd yn amgylcheddol gynaliadwy, a bod y mannau gwyrdd yn annog adfer a chreu cynefinoedd.	 
7.5 Paratoi, rheoli a gwerthuso ein gweithdrefnau sefydliadol er mwyn deall eu heffaith amgylcheddol.	  
7.6 Nodi technegau a chyfarpar gweithredu newydd i liniaru effeithiau niweidiol ar yr amgylchedd.	 
7.7 Gweithio gyda'n cyflenwyr a'n defnyddwyr i wneud ein cadwyn gyflenwi yn gyfeillgar i'r amgylchedd.	  
7.8 Canfod modd o ddigideiddio a symleiddio prosesau ar draws y Gwasanaeth, er mwyn lleihau'r defnydd o bapur.	 
7.9 Monitro holl ffigurau'r llif gwastraff er mwyn sicrhau bod gwastraff cyffredinol yn cael ei leihau a bod gwelliant yn digwydd ym mhob agwedd ar ailgylchu.	 





8


Byddwn yn datblygu ein gofynion fflyd ac offer fel y gallwn ymateb yn effeithiol i argyfyngau.



Beth ydym ni'n mynd i'w wneud?



Camau Gweithredu	Llinell amser
8.1 Bod â cherbydau ac offer a fydd yn cefnogi rheolaeth effeithiol o halogiad mewn argyfyngau.	
8.2 Darparu'r cerbydau priodol i'n diffoddwyr tân ymateb i'r risgiau yn ein cymunedau.	 
8.3 Sicrhau bod ein cyfarpar gweithredol yn ein galluogi i fod yn effeithiol mewn digwyddiadau brys.	  





Monitro'r Cynllun hwn

CRMP 2040 yw ein cynllun hirdymor i ddarparu Gwasanaeth effeithiol ac effeithlon, a fydd yn cael ei fonitro a'i adolygu'n rheolaidd ar gyfer dilysrwydd a dilyniant. Bydd perchnogaeth monitro yn cael ei ddirprwyo i ganiatáu i adolygiadau ddigwydd ar adegau dynodedig o fewn y cynllun.

Bydd mân adolygiad blynyddol yn wiriad sicrwydd a fydd yn cael ei gynnal i gadarnhau bod pob amcan yn parhau i fod yn addas i'r diben, un unol â'r amserlen ar gyfer cyflawni ac yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r Gwasanaeth ar y pryd.

Bydd adolygiad mawr yn cael ei gynnal bob 5 mlynedd i ganiatáu i bob elfen a ddarperir gael ei chau ac i ail-alinio pob un sydd angen eu cwblhau o hyd i'r cylch 5 mlynedd nesaf. Bydd yr adolygiad mawr yn rhoi cyfle i'r Gwasanaeth ddiweddarau a dilysu'r amcanion hynny a fydd yn cychwyn yn y cylch 5 mlynedd nesaf a thu hwnt.





Darganfod mwy

Mae ein gwefan yn cynnwys gwybodaeth fanylach am feysydd yr adroddwyd amdanynt yn y ddogfen hon.

Yn Adran Perfformiad ein gwefan, fe welwch wybodaeth am: -

- Cynllun Rheoli Risg Cymunedol.
- Cynlluniau strategol.
- Cynlluniau Gwella Busnes Blynyddol.
- Asesiadau Perfformiad Blynyddol.
- Adroddiadau Ymgynghori.
- Adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru.
- Adroddiadau Dangosyddion Perfformiad Cymru.
- Siarter Ymateb i Danau Annedd Cymru Gyfan.

Rydym yn croesawu eich sylwadau neu awgrymiadau ar gyfer gwelliannau cynllunio yn y dyfodol.

I roi eich adborth, gallwch gysylltu â ni drwy ein gwefan **www.mawwfire.gov.uk**, ein ffonio ni ar **0370 6060699** neu ysgrifennu atom ym Mhencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Lime Grove Avenue, Caerfyrddin, SA31 1SP.

Fel arall, gallwch anfon e-bost atom ar **mail@mawwfire.gov.uk**.

Fersiynau Amgen

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael mewn fformatau hygyrch.

Os hoffech gael y wybodaeth hon mewn iaith neu fformat arall neu fersiwn sain cysylltwch â ni ar **0370 6060699** neu e-bost: **mail@mawwfire.gov.uk**.

Gofyn am archwiliad diogelwch tân yn y cartref

Gallwch ofyn am Archwiliad Diogelwch Tân yn y Cartref i chi'ch hun, perthynas neu gymydog dibynnol, drwy gysylltu â'r Gwasanaeth ar **0800 169 1234** neu drwy ymweld â **www.mawwfire.gov.uk**.



Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

EIN GWELEDIGAETH

I ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i
gymunedau Canolbarth a Gorllewin Cymru.

OUR VISION

To deliver the best possible service for
the communities of Mid and West Wales.

#EichGTACGC

#YourMAWWFRS



CYNLLUN RHEOLI RISG CYMUNEDOL 2040

FERSIWN 2

Cyfryngau Cymdeithasol

Rydym yn eich annog i gadw llygad ar ein
sianeli cyfryngau cymdeithasol ar gyfer diweddariadau

HOFFI DILYN RHANNU



LIKE FOLLOW SHARE

Ein Negeseuon
Diogelwch

Our Safety
Messages

www.tancgc.gov.uk

